# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 28 Chwefror 2002

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**

1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Iaith Gymraeg
3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad
5 Cwestiynau ar Dechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Iaith Gymraeg

### Cyfranogiad Menywod mewn Chwaraeon

**C6 Christine Chapman:** A wnaiff y Gweinidog ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch cyfranogiad menywod mewn chwaraeon yng Nghymru? (OAQ15890)

**Y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Iaith Gymraeg (Jenny Randerson):** Yr wyf yn benderfynol o weld lefel cyfranogiad menywod mewn chwaraeon yn cynyddu. Adlewyrchir y mater hwn yn nifer o'r cynlluniau sy'n cael eu cyflwyno gan Gyngor Chwaraeon Cymru, er enghraifft y cynllun gweithredu menywod a merched, cynllun merched yn gyntaf a'r cynllun datblygu golff.

Mae'r cyngor chwaraeon yn gweithio'n galed i gyrraedd ei darged cyffredinol, sef haneru'r bwlch sydd rhwng cyfranogiad dynion a menywod erbyn 2005. Ar hyn o bryd, mae'n casglu data er mwyn dadansoddi'r cynnydd a gyflawnir.

*Tynnwyd cwestiwn 7 (OAQ15871) yn ôl.*

### Adnoddau Hamdden ar gyfer Pobl Anabl

**C8 William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr adnoddau hamdden a chwaraeon sydd ar gael ar gyfer pobl anabl yn ein cymunedau? (OAQ15872)

**Jenny Randerson:** Yr wyf am i bawb yng Nghymru gael y cyfle i gymryd rhan mewn chwaraeon, yr anabl fel yr abl, waeth am oedran, gallu neu ryw.

Mae polisïau Llywodraeth y Cynulliad, a roddir ar waith drwy Gyngor Chwaraeon Cymru, yn canolbwyntio'n arbennig ar gyfranogiad pobl anabl mewn chwaraeon drwy gynlluniau fel cynllun anabledd Cymru. Mae'r Ddeddf Gwahaniaeth ar Sail Anabledd (1995) yn rheoli mynediad pobl anabl at gyfleusterau chwaraeon a hamdden ac mae'n rhaid i bob lleoliad hamdden gydymffurfio â'r Ddeddf.

### Mesur y Swyddfa Gyfathrebu

**C9 Gareth Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar effaith Mesur y Swyddfa Gyfathrebu arfaethedig ar gyhoedd Cymru? (OAQ15885)

**Jenny Randerson:** Ni fydd Mesur y Swyddfa Gyfathrebu, a fydd yn cael trydydd gwrandawiad yn Nhŷ'r Cyffredin ddechrau mis Mawrth, yn effeithio'n uniongyrchol ar gyhoedd Cymru. Mae wedi'i gyfyngu i sefydlu'r Swyddfa Gyfathrebu fel endid cyfreithiol er mwyn iddi baratoi ei hun ar gyfer y swyddogaethau rheoliadol y bydd yn gyfrifol amdanynt yn y pen draw.

**Cymorth Ariannol ar gyfer Cwmnïau Teithiol**

**C10 Janet Davies:** Sut y mae'r cymorth ariannol sydd ar gael ar gyfer cwmnïau teithiol yng Nghymru yn cymharu â'r hyn sydd ar gael ar gyfer cwmnïau yn Lloegr a'r Alban? (OAQ15947)

**Jenny Randerson:** Mae grantiau refeniw i gwmnïau teithiol o bwys yng Nghymru, yr Alban a Lloegr eleni ychydig dros £10 miliwn, £13 miliwn a £40 miliwn i'r naill ar ôl y llall. Er enghraifft, bydd Opera Cenedlaethol Cymru yn derbyn £8.3 miliwn eleni, o'i gymharu â £7.6 miliwn i Opera'r Alban a £6.7 miliwn i Opera'r Gogledd.

Gyda'i gilydd, bydd cwmnïau gorchwyl cenedlaethol Cymru yn derbyn ychydig dros £10 miliwn eleni. Mae hyn yn eu galluogi i gyflwyno amrywiaeth o opsiynau teithiol, o ddigwyddiadau graddfa fawr i gorau, ac o addysg i waith maes mewn cymunedau. Bydd y cynnydd sylweddol yng nghyllideb Cyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer 2002-03 yn galluogi'r cwmnïau cenedlaethol i wneud hyd yn oed rhagor yn y dyfodol.

**Cyfranogiad mewn Chwaraeon mewn Cymundedau Difrientiedig**

**C11 John Griffiths:** Pa bolisïau pellach fydd yn cael eu datblygu er mwyn hyrwyddo cyfranogiad mewn chwaraeon yn y cymunedau mwyaf difreintiedig? (OAQ15868)

**Jenny Randerson:** Mae cynyddu cyfranogiad plant a phobl o bob oed ac o bob ardal mewn chwaraeon yn rhan annatod o 'Gynllun i Gymru 2001' Llywodraeth y Cynulliad. Credaf yn gryf fod gan gyfranogiad mewn chwaraeon ran allweddol i'w chwarae wrth helpu i fynd i'r afael â'r problemau sy'n gysylltiedig â'n hardaloedd mwyaf difreintiedig ac mae'r mater hwn yn hollbwysig i holl raglenni datblygu'r cyngor chwaraeon. Er enghraifft, mae Cyngor Chwaraeon Cymru wedi sefydlu fforwm cynhwysiant cymdeithasol mewn chwaraeon gyda hyd at £8 miliwn o arian y loteri dros y pum mlynedd nesaf.

**Clwyd Theatr Cymru**

**C12 Tom Middlehurst:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gyllido Clwyd Theatr Cymru? (OAQ15881)

**Jenny Randerson:** Yr wyf yn falch o ddweud yn dilyn y cynnydd sylweddol yng nghyllideb Cyngor Celfyddydau Cymru dros y flwyddyn ariannol nesaf, y bydd cleientiaid refeniw'r cyngor yn derbyn cynnydd o 15 y cant yn eu cyllid. Gyda golwg ar Clwyd Theatr Cymru, mae hyn yn golygu grant refeniw ychydig dros £1.34 miliwn, ac ad-dalu dyled 2002-03. Bydd hyn y galluogi Clwyd Theatr Cymru i barhau â'i lefel bresennol o gynyrchiadau, teithio dwywaith y flwyddyn a mynd â'i theatr symudol i leoliadau a chymunedau ar hyd a lled Cymru.

**Datblygu Diwylliant Cymru**

**C13 Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cynnydd sy'n cael ei wneud ar ddatblygu diwylliant Cymru yn unffurf ledled Cymru? (OAQ15950)

**Jenny Randerson:** Mae cynnydd da o ran datblygu diwylliant Cymru yn gyffredinol, ac mae lansio fy strategaeth ddiwylliant 'Creative Future: Cymru Greadigol' yn brawf o hyn. Mae hon yn strategaeth 10-mlynydd ymestynnol ond cyraeddadwy ar gyfer gosod materion diwylliannol yn uchel ar yr agenda yng Nghymru. Er mwyn cyflwyno'r strategaeth hon, mae'n rhaid newid y ffordd yr ydym yn meddwl, yn cynllunio ac yn cyllido ac, o ganlyniad, y ffordd yr ydym yn cyflwyno. Os gallwn gyflawni hynny, bydd yn arwain at fwy o gydnabyddiaeth a phroffil uwch i Gymru, gyda'r holl fanteision ehangach a ddaw gyda hynny i bawb yng Nghymru.

Mae cynyddu'r cyllidebau yn fy mhortffolio ar gyfer y flwyddyn nesaf hefyd yn brawf o'r cynnydd da yn y maes hwn. Mae'r adolygiad cyhoeddi, adolygiad iaith Gymraeg y Pwyllgor Diwylliant ac ailstrwythuro cyngor y celfyddydau yn rhai enghreifftiau o'r gwaith da sy'n mynd ymlaen.

### Papur Gwyn ar Ddarlledu a Chyfathrebu

**C14 Gareth Jones:** Pa sylw a gymerwyd i ymateb Cabinet y Cynulliad Cenedlaethol i'r Papur Gwyn ar ddarlledu a chyfathrebu a gyhoeddwyd y llynedd? (OAQ15884) [W]

**Jenny Randerson:** Mae swyddogion y Cynulliad Cenedlaethol yn cadw mewn cysylltiad agos â'r swyddogion sy'n cyfateb â hwy yn Whitehall er mwyn sicrhau bod anghenion a phryderon penodol Cymru, a nodwyd yn ymateb Cabinet y Cynulliad, yn cael eu hystyried yn y Mesur Cyfathrebu. Mae'r trafodaethau hyn yn gyfrinachol ar hyn o bryd ond bydd ymgynghori cyhoeddus ar y Mesur Cyfathrebu yn y dyfodol agos.

### Adeiladu Pwll Nofio yng Ngogledd Cymru

**C15 Ann Jones:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch adeiladu pwll nofio 50m yng ngogledd Cymru? (OAQ15889)

**Jenny Randerson:** Nid wyf wedi bod yn rhan o unrhyw drafodaethau ynghylch adeiladu pwll nofio 50 metr yng ngogledd Cymru.

Yr oedd Cyngor Chwaraeon Cymru wedi gwahodd ceisiadau ar gyfer adeiladu cyfleuster pwll nofio cenedlaethol gan bob awdurdod lleol yng Nghymru, ond ni dderbyniwyd cais o ogledd Cymru. Daeth y cais llwyddiannus gan bartneriaeth rhwng Prifysgol Cymru, a Chyngor Dinas a Sir Abertawe.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad

### Hygyrchedd Gwasanaethau Cyhoeddus mewn Ardaloedd Gwledig

**C2 Ann Jones:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cynnal gyda'i Gyd-Weinidogion ar hygyrchedd gwasanaethau cyhoeddus i bobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig? (OAQ15918) ***Trosglwyddwyd ar gyfer ateb ysgrifenedig.***

**Y Gweinidog dros Faterion Gwledig a Threfnydd y Cynulliad (Carwyn Jones):** Caf drafodaethau rheolaidd gyda Gweinidogion eraill ar amrywiaeth o faterion.

*Atebwyd Cwestiynau 3 i 7 yn y Cyfarfod Llawn.*

### Panel Cwynion Ffermwyr

**C8 David Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar sefydlu panel cwynion ffermwyr? (OAQ15955)

**Carwyn Jones:** Nid oes 'panel cwynion ffermwyr'. Ystyrir achosion pan fydd ffermwyr yn credu nad oedd eu cwynion wedi cael eu trin yn iawn, dan God Ymarfer y Cynulliad ar Gwynion, neu gall y ffermwyr ofyn am adolygiad gan Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru.

Mae panel apeliadau ffermwyr, ac fe'i sefydlwyd ar 31 Hydref 2001 fel cam terfynol y weithdrefn apelio newydd ar gyfer ffermwyr yng Nghymru. Gall ffermwyr apelio gerbron y panel yn erbyn penderfyniadau swyddogion ynghylch taliadau cymhorthdal prif gynllun y polisi amaethyddol cyffredin a wnaed mewn perthynas â chynllun rheoli gweinyddiaeth integredig blwyddyn 2001 ac ymlaen. Bydd y panel apeliadau yn ystyried ffeithiau'r achos ac a oedd y swyddogion wedi dilyn rheolau'r cynllun yn gywir.

## Cynllun Tir Gofal

**C9 Glyn Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gyllido'r cynllun Tir Gofal yn y dyfodol? (OAQ15940)

**Carwyn Jones:** Yr oeddwn yn falch iawn o gyhoeddi'r wythnos diwethaf fy mod wedi diogelu £1.5 miliwn ychwanegol y flwyddyn ar gyfer Tir Gofal o'r flwyddyn nesaf ymlaen. Mae hyn yn gynnydd o 11 y cant ac mae'n codi'r gyllideb i £15.4 miliwn yn 2002-03 a £18.4 miliwn yn 2003-04.

## Profion am y Diciâu

**C10 Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad byr ar y naw prawf am y diciâu? (OAQ15964) [W]

**Carwyn Jones:** Dim ond tri chanlyniad posibl sydd i'r prawf gwahaniaethol safonol am y diciâu mewn gwartheg: pasio'n bendant; methu'n bendant neu ganlyniad amheus. Bydd pasio'n caniatáu ailgydio yn y drefn arferol o brofi'r fuches honno fel sy'n gymwys i'r plwyf arbennig hwnnw. Bydd methiant yn golygu lladd gwartheg yr effeithiwyd arnynt (gyda iawndal) a chynnal prawf eto ymhen 45 i 60 diwrnod. Bydd canlyniad amheus yn golygu y bydd angen cynnal prawf arall ar wartheg amheus unigol neu'r fuches gyfan yn ystod yr un cyfnod os daw nifer sylweddol o ganlyniadau amheus i'r amlwg.

## Cynlluniau Amaeth-amgylcheddol

**C11 Dafydd Wigley:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddyfodol cynlluniau amaeth-amgylcheddol yng Nghymru? (OAQ15959)

**Carwyn Jones:** Fel rhan o'r gwaith sy'n cael ei gydgysylltu gan Lywodraeth y Cynulliad i benderfynu ar ein hymagwedd at adolygiad canol tymor y polisi amaethyddol cyffredin, sefydlwyd gweithgor amaeth-amgylcheddol i edrych yn benodol ar swyddogaeth cynlluniau amaeth-amgylcheddol a sut y gellir eu datblygu yn y dyfodol. Mae'r grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o undebau'r amaethwyr, y sector organig, Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, y Comisiwn Coedwigaeth, Parciau Cenedlaethol, Cyswllt Bywyd Gwyllt a'r Ffermwyr Ifanc. Bydd y gweithgor yn cyflwyno'i gasgliadau i mi drwy llywio diwygio'r polisi amaethyddol cyffredin yn ddiweddarach eleni.

## Brandio Cynnyrch o Gymru

**C12 John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar hynt y gwaith o ddatblygu'r modd y caiff cynnyrch unigryw o Gymru sydd wedi'i frandio ei gynhyrchu a'i farchnata? (OAQ15909)

**Carwyn Jones:** Mae Cyfarwyddiaeth Fwyd Awdurdod Datblygu Cymru wedi mynd â phrosiect rhagddo sy'n datblygu cyfeiriad strategol clir ac yn datblygu brand arbennig ar gyfer bwyd a diod o Gymru. Y nod yw rhoi hunaniaeth gref i gynnyrch o Gymru, gan ganolbwyntio'r gwaith hyrwyddo a marchnata ar 'y gwir flas'.

## Pris Teg am Gynnyrch Amaethyddol

**C13 Alison Halford:** Pa gamau y mae'r Gweinidog wedi'u cymryd i sicrhau bod pob archfarchnad yng Nghymru yn trin ffermwyr yn deg, ac yn rhoi pris teg iddynt am eu cynnyrch? (OAQ15921)

**Carwyn Jones:** Roedd y mater hwn yn destun archwiliad wyth mis o hyd gan y Swyddfa Masnachu Teg ac wedyn cafodd ei gyfeirio at y Comisiwn Cystadleuaeth ar gyfer ymchwiliad monopoli llawn. Argymhellodd yr Adran Masnach a Diwydiant y dylid datblygu cod ymddygiad gorfodol ar gyfer y diwydiant. Daw y cod i rym ar 17 Mawrth 2002.

### Arferion Da o ran Lles Anifeiliaid

**C14 Brian Gibbons:** Pa rôl y gall arferion da o ran lles anifeiliaid ei chwarae wrth hybu diwydiant amaethyddol Cymru? (OAQ15917)

**Carwyn Jones:** Dim ond ennill y gall diwydiant amaethyddol Cymru ei wneud yn sgîl arferion lles anifeiliaid da. Ar hyn o bryd, mae Cymru yn gweithio gyda gweinyddiaethau eraill y DU er mwyn rhoi nifer o godau lles anifeiliaid ar waith, a fydd yn gwella ansawdd cynnyrch Cymreig ochr yn ochr â chynlluniau aswiriedig fel da byw Cymreig ffermydd aswiriedeg, sy'n hyrwyddo ffermio a hwsmonaeth dda.

### Arwerthiannau Gwartheg

**C15 Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ail-agor arwerthiannau gwartheg yng Nghymru? (OAQ15914)

**Carwyn Jones:** Yr wyf wrth fy modd bod arwerthiannau gwartheg wedi ailagor dan y trefniadau symud da byw dros dro a gyflwynwyd ar 11 Chwefror. Cynhaliwyd marchnadoedd llwyddiannus eisoes yng Nghaerfyrddin, Trefyclo a Dolgellau gan bod eu trwydded gweithredwyr marchnad yn cynnwys amodau bioddiogelwch.

Drwy edrych ar brofiadau o'r arwerthiannau hyn a rhai eraill dros y misoedd nesaf, yr wyf yn ffyddiog y bydd cyfleoedd marchnadoedd ehangach yn datblygu fel ag y bydd asesiadau risg afiechydon milfeddygol yn eu caniatáu.

## Cwestiynau ar Dechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd

### Canolfan Ddata Ignite BT

**C5 Lorraine Barrett:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y lefel o gefnogaeth a roddwyd i agoriad arfaethedig canolfan ddata Ignite BT, a fydd yn fy etholaeth i, sef De Caerdydd a Phenarth? (OAQ15904)
***Trosglwyddwyd ar gyfer ateb ysgrifenedig.***

**Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd (Andrew Davies):** Rhoddwyd swm sylweddol o gymorth rhanbarthol dewisol er mwyn helpu sicrhau'r prosiect pwysig hwn, gwerth £90 miliwn, i Gaerdydd, Cymru a'r DU.

Oherwydd rhesymau cyfrinachedd masnachol sylfaenol, nid ydym yn datgan lefel y cymorth rhanbarthol dewisol ar hyn o bryd ond mae manylion cynigion unigol o £75,000 neu drosodd wedi'u cyhoeddi yn *'Labour Market Trends'* yn y chwarter cyntaf yn dilyn talu rhandaliad cyntaf y grant.

*Atebwyd Cwestiwn 6 yn y Cyfarfod Llawn*

### Adleoli Swyddi i Gefn Gwlad Cymru

**C7 Brian Hancock:** Sut fydd y defnydd o TGCh yn helpu i hwyluso adleoli swyddi o'r dinasoedd mawrion i gefn gwlad Cymru? (OAQ15970)

**Andrew Davies:** Mae 'Cymru Ar-lein' a 'Cymru'n Ennill' yn nodi ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i ledaenu a gwella ffyniant yng Nghymru drwy fanteisio i'r eithaf ar dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Gall TGCh hwyluso arferion fel teleweithio ac agor marchnadoedd nad oedd ar gael gynt. Ni raid i leoliad fod yn broblem mwyach a gall mynediad at TGCh helpu pobl i benderfynu lle y maent eisiau byw a gweithio.

Drwy brosiectau fel Haen 6 a rhwydwaith aml-asiantaeth ardal wledig y prosiect Llwybr/Pathway, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ceisio sicrhau bod seilwaith telathrebu band llydan ar gael mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru lle na fyddai gweithredwyr masnachol yn dymuno cynnig gwasanaethau. Y llynedd, cyhoeddasom ein cynlluniau i ddatblygu rhwydwaith dysgu gydol oes, a fydd yn hwyluso cysylltiadau cyflym i ysgolion, sefydliadau dysgu a llyfrgelloedd ledled Cymru. Ar ben hynny, disgwyliaf wneud cyhoeddiad ynghylch camau nesaf y cynllun gweithredu Analysys cyn bo hir.

## Hyrwyddo Defnydd o Dechnoleg Band Llydan

**C8 Jonathan Morgan:** Pa gyfarfodydd y mae'r Gweinidog wedi eu cael gydag Awdurdod Datblygu Cymru i hyrwyddo'r defnydd o dechnoleg band llydan? (OAQ15973)

**Andrew Davies:** Yr wyf yn cwrdd ag aelodau'r bwrdd a swyddogion Awdurdod Datblygu Cymru yn rheolaidd er mwyn trafod amrywiaeth o faterion, gan gynnwys sut y gallwn weithio mewn partneriaeth i hyrwyddo treigl a defnydd y dechnoleg band llydan yng Nghymru. Y tro diwethaf i mi gwrdd â hwy oedd ar 23 Ionawr er mwyn trafod y ffordd ymlaen gyda'r cynllun gweithredu Analysys.

Bydd y cynllun hwn yn ganolog wrth benderfynu sut y bydd y Cynulliad yn dewis cyflawni ei ymrwymiadau band llydan a nodwyd yn 'Cymru Ar-lein' a 'Cymru'n Ennill'. Disgwyliaf gyhoeddi sut y datblygir y cynllun cyn bo hir.

## Rhwydwaith Gyfathrebu Well

**C9 Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddatblygu rhwydwaith gyfathrebu well ar draws Cymru trwy ddefnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu? (OAQ15968)

**Andrew Davies:** Mae 'Cymru Ar-lein' a 'Cymru'n Ennill' yn nodi ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i sicrhau bod gan Gymru seilwaith telathrebu modern sydd ar gael ac sy'n fforddiadwy i bawb.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cefnogi amrywiaeth o brosiectau sy'n ceisio hwyluso hyn. Mae'r rhain yn cynnwys Haen 6 y prosiect Llwybr/Pathway a MARAN—sydd hefyd yn rhan o Llwybr/Pathway. Datblygir prosiectau cyflenwi a galw fel rhan o'r cynllun gweithredu adroddiad Analysys yr wyf yn ei ystyried ar hyn o bryd.

## Darpariaeth ar gyfer Ysgolion Cynradd

**C10 Helen Mary Jones:** Erbyn pa ddyddiad y mae'n rhagweld y bydd pob ysgol gynradd yn derbyn gwasanaeth 2 fegabeit yr eiliad? (OAQ15906)

**Andrew Davies:** Bydd buddsoddiad gwerth £18.4 miliwn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i greu rhwydwaith dysgu gydol oes yng Nghymru yn darparu cyswllt 100 megabeit i bob awdurdod lleol erbyn mis Gorffennaf eleni. Bydd arian a fydd ar gael gan Lywodraeth y Cynulliad ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf yn cynorthwyo awdurdodau lleol i ymestyn eu rhwydweithiau corfforaethol o'r cyswllt 100 megabeit i ysgolion, llyfrgelloedd a chanolfannau dysgu TGCh. Awdurdodau lleol fydd yn penderfynu ar amserlen cysylltu ysgolion cynradd a bydd hynny'n dibynnu ar y galw a'r blaenoriaethau lleol.

## Defnydd TGCh gan yr Henoed

**C11 David Melding:** Sut y mae'r Gweinidog yn annog yr henoed yng Nghymru i ddefnyddio TGCh? (OAQ15927)

**Andrew Davies:** Mae'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol eisoes wedi cyhoeddi y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn datblygu strategaeth ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru. Mae grŵp llywio'r strategaeth eisoes wedi trafod pwysigrwydd cynyddol TGCh yn y ffordd y mae pobl hŷn yn

cyfathrebu a hefyd drwy gyflwyno gofal yn y cartref. Mae'r grŵp wedi cytuno y bydd angen ystyried y mater hwn yng nghanfyddiadau'r strategaeth, sydd i ddod yn y gwanwyn.

Fel rhan o 'Cymru Ar-lein' cynhyrchwyd cronfa ddata sy'n rhoi manylion pob pwynt mynediad cyhoeddus fel llyfrgelloedd a chanolfannau dysgu. Mae'r gronfa ddata hon yn cynnwys manylion hyfforddiant a chymorth TGCh sydd ar gael ac mae eisoes ar gael ar ffurf ddrafft ar wefan 'Cymru Ar-lein'. Rhagwelir y bydd pobl o bob oed yn gallu defnyddio'r gronfa i ddod o hyd i gyfleusterau TGCh lleol.

**Argaeledd Gwasanaeth Band Llydan yng Ngorllewin De Cymru**

**C12 Peter Black:** Pa gynlluniau sydd ar y gweill i sicrhau y gall mwy o bobl yng Ngorllewin De Cymru dderbyn gwasanaeth band llydan yn y flwyddyn ariannol nesaf? (OAQ15903)

**Andrew Davies:** Bydd Gorllewin De Cymru ar ei hennill yn sgîl nifer o brosiectau'r flwyddyn nesaf a fydd yn ceisio ymestyn faint o fand llydan sydd ar gael yng Nghymru yn unol â'n hymrwymiadau yn 'Cymru Ar-lein' a 'Cymru'n Ennill'. Yn benodol:

Rhwydwaith dysgu gydol oes band llydan: Y llynedd, cyhoeddasom fuddsoddiad gwerth £33 miliwn (dros oes y prosiect) i ddatblygu rhwydwaith dysgu gydol oes band llydan a fyddai'n cysylltu pob sefydliad dysgu, canolfan ddysgu a llyfrgell yng Nghymru â rhwydwaith asgwrn cefn capasiti uchel. Yn benodol, dyrannwyd £18.4 miliwn i'r prosiect yn ystod y flwyddyn ariannol hon i brynu offer aml-gyfrwng i ysgolion ac ar gyfer caffael rhwydwaith asgwrn cefn capasiti uchel a fyddai'n cyflwyno pwyntiau mynediad dysgu gydol oes a mynediad cyflym at y rhyngrwyd 100 megabeit yr eiliad ym mhob awdurdod lleol. Mae £15 miliwn ychwanegol wedi'i ymrwymo ar gyfer parhau i ddatblygu'r rhwydwaith yn ystod y tair blwyddyn ariannol nesaf.

Adroddiad Analysys: Comisiynwyd yr adroddiad hwn ar y cyd rhwng Awdurdod Datblygu Cymru a'r Cynulliad ac mae'n gosod cyfres o gamau gweithredu polisi a allai helpu i ysgogi elfennau cyflenwi a galw cyflwyno band llydan yng Nghymru fel ei gilydd. Cynhyrchwyd cynllun gweithredu wedi'i gostio yn ddiweddar a chyda fy nghydweithwyr yn y Cabinet yr wyf yn ystyried y ffordd orau i fynd â hyn rhagddo ar hyn o bryd. Gobeithiaf wneud cyhoeddiad ar hyn o beth cyn bo hir.

Amcan 1 (blaenoriaeth 2: mesur 1): Mae'r ddogfen rhaglen sengl a'r rhaglen ategol yn dyrannu tua £25 miliwn dros oes bresennol y rhaglen (h.y. 2000-06), er mwyn cefnogi datblygu prosiectau seilwaith TGCh ymhellach yn ardal Amcan 1, sy'n cynnwys Gorllewin De Cymru. Disgwylir y bydd cyfran sylweddol o'r dyraniad hwn yn cael ei ddefnyddio i gefnogi prosiectau a nodir fel rhan o gynllun gweithredu Analysys.

Cronfa band llydan £30 miliwn yr Adran Masnach a Diwydiant: Gyda golwg ar y DU, mae gan yr Adran Masnach a Diwydiant gronfa gwerth £30 miliwn ar gyfer prosiectau band llydan arloesol. Dyrannwyd cyfanswm o £2.67 o'r gronfa hon i Gymru a bydd y rhan fwyaf o hynny yn cefnogi ein rhwydwaith dysgu gydol oes. Disgwyliwn y bydd y gweddill yn cefnogi cynllun peilot band llydan di wifr.

**Gwe Gaffis**

**C13 William Graham:** A wnaiff y Gweinidog egluro swyddogaeth y 'gwe gaffis' wrth hybu technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yng Nghymru? (OAQ15895)

**Andrew Davies:** Ble bynnag y bônt, mae gwe gaffis yn darparu pwyntiau mynediad defnyddiol at y rhyngrwyd i'r cyhoedd ac maent yn hybu defnyddio TGCh. Yn hynny o beth, maent yn un o'r ffyrdd y bydd unigolion sydd heb eu cyfleusterau eu hunain, yn gallu manteisio ar gyfleoedd TGCh a'r rhyngrwyd.

## Hyrwyddo E-fusnes yng Ngogledd Cymru

**C14 Alison Halford:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr hyn sydd wedi ei wneud i hyrwyddo e-fusnes yng ngogledd Cymru? (OAQ15974)

**Andrew Davies:** Mae 'Cymru Ar-lein' a 'Cymru'n Ennill' yn manylu sut y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu trawsnewid economi Cymru drwy ddefnyddio TGCh.

Yr ydym yn cefnogi amrywiaeth o brosiectau sy'n cynnwys hyrwyddo e-fasnach a darparu cyngor ar TGCh i fusnesau. Mae'r rhain yn cynnwys CyflE Cymru, rhwydwaith canolfannau cefnogi TGCh Cymru-gyfan, gwobrau blynyddol e-fasnach ac ymrwymiad i ddatblygu mynediad at dechnoleg band llydan.

Bydd CyflE Cymru, prosiect Amcan 1 sylweddol, yn helpu miloedd o fusnesau i fanteisio ar e-fasnach. Cytunwyd ar gynllun peilot CyflE Cymru newydd yn ddiweddar ar gyfer gogledd Cymru. Nid CyflE Cymru yw'r unig brosiect e-fasnach yng Nghymru, ond hwn yw'r mwyaf.

Fel rhan o'n hymrwymiad i godi proffil e-fasnach, ar y cyd, yr ydym yn noddi rownd Cymru o wobrau *UK online for business/InterForum E-commerce*. Mae'r gwobrau hyn yn cydnabod ac yn gwobrwyo'r sefydliadau hynny sydd wedi dangos rhagoriaeth drwy ddefnyddio'r rhyngrwyd.

Mae mynediad at seilwaith fforddiadwy yn hollbwysig i fynd â'r agenda e-fusnes yn ei blaen. Cymerwyd camau sylweddol eisoes gan gynnwys cefnogaeth i Haen 6 prosiect Llwybr/Pathway sy'n sicrhau bod llinell danysgrifio ddigidol anghymesur ar gael mewn 10 tref wledig yng Nghymru, gan gynnwys Bangor, Dinbych, Caergybi a Llandudno yng ngogledd Cymru.

## Hyfforddiant TGCh ar gyfer Athrawon a Phrifathrawon

**C15 Gareth Jones:** Beth sy'n cael ei wneud i sicrhau bod pob athro a phrifathro yng Nghymru yn derbyn hyfforddiant addas mewn TGCh? (OAQ15969)

**Andrew Davies:** Mae'r Cynulliad yn cydnabod bod angen i athrawon fod yn hyderus a hyfedr wrth ddefnyddio technoleg. Yr ydym yn buddsoddi mewn hyfforddiant TGCh i athrawon sy'n gweithio drwy'r rhaglen grantiau cynnal addysg a hyfforddiant. Mae athrawon yng Nghymru hefyd yn manteisio ar yr hyfforddiant TGCh gwerth £12.5 miliwn a gyllidwyd gan y loteri, ac a drefnwyd gan y gronfa cyfleoedd newydd. Ar hyn o bryd yr ydym yn archwilio cynigion ar gyfer defnyddio'r £4 miliwn o gyllid sydd ar gael y flwyddyn nesaf fel rhan o strategaeth band llydan y Cynulliad.

Bydd tasglu TGCh ysgolion hefyd yn cael ei wahodd i archwilio ffyrdd eraill o wella sgiliau athrawon wrth ddefnyddio TGCh pan gaiff ei sefydlu ym mis Ebrill.